

# Adolygiad o drosglwyddiad COVID-19 sy'n gysylltiedig ag ysgolion yng Nghwm Taf Morgannwg.

## Cefndir:

Mae Grŵp Goruchwylio Clystyrau amlasiantaeth wedi canfod, asesu, monitro, a delio â chlystyrau o achosion ar draws Cwm Taf Morgannwg, gan gynnwys mewn ysgolion. Caiff y grŵp ei gadeirio gan Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus yn Nhîm Iechyd y Cyhoedd Lleol Cwm Taf Morgannwg. Mae hyn wedi golygu bod modd gwneud asesiad risg mewn sefyllfaoedd gwahanol a chynnig cyngor, cymorth, archwiliadau a gwneud gwaith gorfodi mewn modd cydgysylltiedig. Mae'r grŵp hefyd yn adrodd i Dîm Rheoli Digwyddiadau CTM er mwyn helpu i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd gwahanol.

Mae'r dystiolaeth sydd wedi ei chyflwyno ers mis Medi wedi dangos bod ysgolion, ar y cyfan, yn cael eu rheoli'n dda. Nid oes rhyw lawer o dystiolaeth o drosglwyddiadau yn yr ysgol, ac mae canllawiau yn cael eu dilyn a safleoedd yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan. Y dystiolaeth o hyn yw'r nifer fach o achosion, y ffaith eu bod wedi eu gwasgaru ar draws blynnyddoedd ysgol, a bod niferoedd uchel o gysylltiadau mewn grwpiau blwyddyn neu mewn swigod ond nid oes llawer o achosion o'r feirws yn cael ei drosglwyddo ymhellach. Ar y cyfan, mae'r haint wedi cael ei dal yn y gymuned gan aelodau o'r aelwyd, ond mae'r achosion hyn yn cael eu cysylltu â'r ysgol berthnasol. Pan oedd dystiolaeth o drosglwyddiad yn yr ysgol, roedd hyn yn aml ymhlith y staff lle roedd mesurau rheoli sylfaenol wedi cael eu torri. Yn ogystal â hynny, mae dystiolaeth o drosglwyddiad mewn ysgolion arbennig. Daeth yr achosion hyn yn sgil torri rheolau cadw pellter cymdeithasol a chamddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE). Mae rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â throsglwyddiad mewn grwpiau cymdeithasol ac ymysg ffrindiau, oherwydd maent yn aml yn cwrdd y tu fewn a'r tu allan i'r ysgol. Pan oedd trosglwyddiad yn amlwg wedi digwydd, roedd hyn oherwydd diffyg cadw pellter cymdeithasol a thorri canllawiau.

Yn ogystal â hynny, mae cyfarfod Lleoliadau Addysg yn cael ei gynnal bob wythnos gyda Chyfarwyddwyr Addysg, Staff yr Awdurdodau Addysg Lleol, cynrychiolwyr lleoliadau cyn ysgol, lleoliadau addysg bellach a'r brifysgol. Mae hwn yn fforwm er mwyn rhannu cyngor, canllawiau ac ymarfer da, a nodi unrhyw bryderon er mwyn gweithredu arnynt ymhellach. Mae llawer o bobl yn mynychu'r fforwm hwn. Mae'n annog cysondeb o ran dulliau o weithio a chydweithio agos ar draws lleoliadau mewn amgylchedd dysgu gweithredol, sy'n arwain at lefel uchel o ymddiriedaeth a hyder yn y sector hwn.

## Cyflwyniad

Wrth i nifer yr heintiau a gafwyd yn y gymuned ac mewn ysgolion gynyddu yn dilyn y cyfnod atal byr yng Nghymru, a ddaeth i ben ar 8 Tachwedd 2020, gofynnodd ACau/ASau gwestiwn i Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd: *"Ydyn ni'n gweld newid o drosglwyddiad yn y gymuned sy'n dod i'r amlwg mewn ysgolion, i drosglwyddiad mewn ysgolion?"*

Er mwyn cael darlun cliriach o hyn, cytunwyd y byddai'r 3 Awdurdod Lleol yn yr ardal, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, yn edrych ar sampl o ysgolion ac yn

casglu tystiolaeth ansoddol o drosglwyddiad ar y safleoedd hyn. Edrychwyd ar gofnodion o achosion ar y system rheoli cofnodion ganolog sy'n cael ei defnyddio gan y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu, er mwyn nodi llwybr trosglwyddo tebygol y feirws lle roedd hynny'n bosibl.

Er mwyn bod yn gynrychiadol, roedd rhaid i'r sampl gynnwys sampl ar hap o bob math o ysgol, gan gynnwys ysgolion arbennig. Roedd yn edrych ar drosglwyddiad ymysg disgyblion, rhwng disgyblion a staff, ac ymysg staff. Cytunwyd rhwng yr awdurdodau lleol y byddai data ansoddol yn cael eu harchwilio er mwyn cael sampl ar hap o 2 ysgol uwchradd a 2 ysgol gynradd ym mhob awdurdod lleol.

## Canlyniadau

Roedd yn amlwg bod achosion ymysg disgyblion a staff wedi cynyddu ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, yn ogystal â nifer yr achosion yn y gymuned. Mae nifer y profion positif ymysg disgyblion a staff yn isel o'i gymharu â chyfanswm y bobl sy'n mynychu'r ysgolion ac yn gweithio ynddynt. Rhaid nodi'r canlynol yn benodol:

- Mae nifer yr achosion mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yn amlwg yn uwch na nifer yr achosion mewn ysgolion uwchradd.
- Mae cryn lawer o staff mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig wedi cael eu nodi fel rhywun yn yr ysgol sydd wedi dod i gysylltiad ag unigolyn â'r feirws cyn iddynt gael prawf positif eu hun.
- Yn ystod wythnos olaf y tymor ysgol, roedd nifer gynyddol o blant ysgol gynradd yn cael prawf positif.
- Mae nifer lawer yn uwch o achosion mewn ysgolion uwchradd wedi eu priodoli i'r ffaith eu bod wedi dod i gyswllt ag achos positif yn y gymuned. Mae hyn yn cyfateb i tua hanner yr achosion. Nid ydym yn gwybod o ble ddaeth yr haint ym mwyafrif yr achosion eraill.
- Mewn rhai ysgolion (yn enwedig ysgolion uwchradd), mae nifer fawr o gysylltiadau'n parhau i gael eu nodi ar gyfer pob achos, ac yna mae rhaid i'r rheiny hunan-ynysu. Mae hyn yn awgrymu bod nifer sylweddol o staff a disgyblion ar y safleoedd yn dod i gyswllt agos â'i gilydd. Gallai hyn fod oherwydd swigod sy'n rhy fawr, ac felly yn lleihau effaith mesurau rheoli sylfaenol.
- O'r rheiny a ddaeth i gysylltiad â rhywun sydd wedi cael prawf positif, dim ond 14% gafodd prawf positif eu hunain.
- Mae tystiolaeth ansoddol o golegau addysg yn awgrymu bod yr achosion sy'n codi yn gysylltiedig â grwpiau o ffrindiau a grwpiau cymdeithasol.
- Dylid parhau i ystyried mai trosglwyddiad cynyddol yn y gymuned sy'n gyfrifol yn bennaf am achosion sy'n cael eu hadrodd mewn ysgolion.
- Mae swigod ysgol, sy'n galluogi disgyblion ysgol i gymysgu heb gadw pellter cymdeithasol, yn creu her wrth geisio rheoli ymddygiad y tu allan i'r ysgol. Mae disgyblion sy'n treulio amser mewn cyswllt agos â'i gilydd yn yr ysgol yn aml yn parhau i wneud hynny y tu allan i'r ysgol, sy'n cynyddu'r risg y bydd y feirws yn lledaenu.

### *Ffactorau risg:*

- Canfuwyd bod staff yn rhannu ceir heb wisgo masgiau wyneb addas wedi cyfrannu at ledaenu'r feirws.
- Canfuwyd hefyd fod gan oruchwylwyr amser cinio, goruchwylwyr clwb brecwast a glanhawyr nifer o swyddi gwahanol; gan gynnwys swyddi mewn nifer o wahanol ysgolion, ac mewn rhai achosion, swyddi staff gofal mewn cartrefi preswyl i'r henoed.
- Mae nifer o achosion wedi eu cysylltu â staff dysgu asiantaeth, sy'n gweithio mewn mwy nag un ysgol.
- Mae'r tywydd oerach, y diffyg awyru a'r ffaith fod pobl yn treulio mwy o amser dan do yn debygol o arwain at gynnydd mewn trosglwyddiad.
- Mae lefelau uwch o heintiadau yn y gymuned yn gysylltiedig â'r nifer uwch o achosion mewn ysgolion lleol.
- Nid ydym yn gwybod faint o gynnydd sydd wedi bod mewn trosglwyddiad oherwydd yr amrywiolyn newydd o'r feirws.
- Torri mesurau rheoli: nid yw rheolau ynghylch gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol a chadw pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn gan staff a disgyblion mewn ysgolion uwchradd fel y maent mewn ysgolion uwchradd. Gallai hyn fod yn ffactor sy'n cyfrannu at nifer yr achosion positif ymysg staff sy'n cael eu nodi mewn ysgolion cynradd.
- Dylid ystyried hefyd ei bod yn bosibl bod trosglwyddiad ymhlith y staff yn cyfrannu at y cynnydd yn nifer yr achosion ymysg staff mewn ysgolion arbennig ac ysgolion cynradd hefyd. Fel arfer ar y safleoedd hyn, mae mwy nag un aelod o staff i bob ystafell ddosbarth oherwydd presenoldeb cynorthwyyr addysgu a swyddogion cymorth dysgu.
- Dryswch ynghylch y gwahanol ofynion o ran cadw pellter cymdeithasol ar gyfer plant ysgol yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol.

### *Materion eraill:*

Mae'r nifer uwch o achosion yn effeithio ar y drefn glanhau bresennol (rhaid neilltuo 72 awr ar ôl canfod yr achos cyn y bydd contractwyr yn dod i'r ystafell ddosbarth a'i glanhau, ac yn cynnal asesiad risg sy'n gysylltiedig â diogelwch yr adeilad), ac felly mae'n rhaid ystyried hyn.

### **Casgliadau**

Gan fod ysgolion ar gau gan fwyaf, heblaw ar gyfer plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol, nid oes clystyrau sy'n gysylltiedig ag ysgolion ar hyn o bryd.

Mae'r adolygiad o achosion mewn ysgolion yn awgrymu'r canlynol:

- Mae tua hanner yr achosion wedi digwydd oherwydd trosglwyddiad yn y gymuned, gan fwyaf oherwydd achos cyfeirio sy'n rhan o'r un aelwyd.
- Pan gaiff achosion eu canfod mewn ysgol, maent fel arfer yn gysylltiedig â grwpiau cymdeithasol neu grwpiau o ffrindiau yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol.
- Nid oes modd nodi'n glir ffynhonnell y trosglwyddiad yn yr achosion eraill. Nid oes tystiolaeth glir o drosglwyddiad ehangach yn yr ysgol y tu hwnt i'r grwpiau cymdeithasol neu'r grwpiau o ffrindiau hynny.
- Mae'r nifer uwch o achosion mewn ysgolion yn gysylltiedig â throsglwyddiad uwch yn gymuned.
- Cafodd cyfraddau uwch eu nodi ymysg staff mewn ysgolion cynradd lle mae'n debygol bod mwy nag un aelod o staff yn yr un ystafell ddosbarth, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu sydd mewn mwy nag un swigen a lle does dim Cyfarpar Diogelu Personol yn cael ei wisgo e.e. mewn coridorau mewn ysgolion uwchradd.
- Mae tystiolaeth o drosglwyddiad mewn un ysgol arbennig a oedd wedi nodi bod diffyg cadw pellter cymdeithasol yn ffactor hollbwysig a arweiniodd at drosglwyddiad.
- Nodwyd bod achosion wedi cynyddu tuag at ddiwedd tymor yr hydref, yn unol â'r cynnydd mewn achosion yn y gymuned. Gallai'r tywydd oerach a'r diffyg awyru olygu bod hyn yn mynd yn waeth.
- Ar y cyfan, roedd achosion a chysylltiadau yn parhau i fod yn isel, yn gymesur â nifer y staff a'r cleifion. Mae hyn yn dangos bod mesurau rheoli effeithiol ar waith.

Mae lefel uchel o hyder mewn cydymffurfiaeth, ar y cyfan, ac mae'r sector addysg gan gynnwys yr Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion a disgyblion i gyd yn ymgysylltu'n effeithiol.

## **Argymhellion**

Mae nifer o feysydd lle mae'n bosibl argymhell gwelliannau:

1. Mae pryderon wedi codi ynglŷn ag ysgolion lle mae'r arfer o ran defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol yn wahanol o'i gymharu ag awdurdodau lleol, yn ogystal ag anghysondeb o ran cynnyrch, oriau cyswllt a threfn glanhau, pryderon ynglŷn â pha mor hawdd fydd cyflwyno profion llif unffordd mewn ysgolion a'r gwaith ymarferol fydd ynghlwm â hyn. O ganlyniad i hyn, mae galw am adolygiad o'r canllawiau ar gyfer ysgolion a'u diweddarau er mwyn sicrhau eglurder.
2. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gofyn i nifer o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yn ei ardal, lle y mae nifer uchel o achosion ymysg eu staff, adolygu eu hasesiadau risg a nodi gwelliannau y gellid eu gwneud i fesurau rheoli heintiau, yn enwedig pan fydd staff yn rhyngweithio. Dylid cyflwyno'r adborth o'r adolygiad i'r Tîm Rheoli Digwyddiadau.
3. Byddai gwella'r modd y bydd cofnodion cysylltiadau mewn ysgolion yn cael eu huwchlwytho yn 2021 yn sicrhau bod gan y Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu ddarlun cliriach o grwpiau cyswllt yn y dyfodol.

4. O hyn ymlaen, dylid ystyried gwelliannau pellach i'r ddarpariaeth o Gyfarpar Diogelu Personol ar gyfer staff sy'n methu â chadw pellter cymdeithasol (e.e. staff mewn ysgolion cynradd) yn enwedig.

Angela Jones, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol Cwm Taf Morgannwg.  
08/01/21

### **Cydnabyddiaethau**

Arweinwyr y Gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu ac Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdodau Lleol:

Jane Peatey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Sue Gow, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Rhian Hope, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Louise Davies, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf